Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Berwyn
# Y Bala,
# Gwynedd,
# LL23 7BN

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg i).**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/01/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Y Berwyn yn ysgol gymunedol, naturiol ddwyieithog ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 18 mlwydd oed, wedi ei lleoli yn nhref fechan Y Bala. Mae 321 o ddisgyblion ar y gofrestr, o'i gymharu â 428 adeg yr arolygiad diwethaf ym Mawrth 2007. Ar hyn o bryd, mae 69 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal wledig eang. Daw rhan fwyaf y disgyblion o bum ysgol gynradd y dalgylch yng Ngwynedd. Mae carfan fechan o ddysgwyr yn trosglwyddo o ysgolion cynradd yn Sir Ddinbych a Chonwy. Chwech y cant o ddisgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim, ffigur sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 17.7%.

Mae 22% o’r disgyblion ar gofrestr anghenion addysgol ychwanegol yr ysgol, gyda 3% ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae’r ffigyrau hyn ychydig yn uwch na’r ffigyrau cenedlaethol.

Daw 79% o'r disgyblion o gartrefi Cymraeg eu hiaith ond mae 97% o'r disgyblion yn dilyn y llwybr mamiaith yn y Gymraeg TGAU. Nid oes disgybl yn derbyn cymorth ar gyfer dysgu’r Saesneg fel iaith ychwanegol.

Penodwyd pennaeth strategol rhan amser i’r ysgol yn 2011. Fe’i cynorthwyir gan bennaeth mewn gofal a dau bennaeth cynorthwyol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Y Berwyn yn 2013-2014 yw £5,124. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Gwynedd yw £5,249 a'r lleiafswm yw £4,186. Mae Ysgol Y Berwyn yn y chweched safle o'r pedair ar ddeg o ysgolion uwchradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae agweddau da ar waith yr ysgol yn cynnwys:

- perfformiad da yn y prif ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 3;
- cyflawniad da iawn disgyblion yn y chweched dosbarth;
- ymddygiad da ac ymagwedd gadarnhaol tuag at ddysgu bron pob un o'r disgyblion;
- y cynnydd ym mhresenoldeb disgyblion i lefelau sydd yn cymharu'n ffafriol â chyfraddau ysgolion tebyg;
- darpariaeth ofalgar ac effeithiol i sicrhau lefelau lles uchel disgyblion;
- llwyddiant yr ysgol wrth hybu Cymreictod a defnydd o'r Gymraeg; a'r
- ethos cynhwysol a chynhaliol.

Fodd bynnag, bernir bod perfformiad yn ddigonol oherwydd:

- bod perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn y dangosyddion sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg ac ystod eang o gymwysterau yn is nag ydyw mewn ysgolion tebyg;
- bod cyflawniad bechgyn yng nghyfnod allweddol 4, mewn ystod o ddangosyddion pwysig, yn sylweddol is nag ydyw mewn ysgolion tebyg;
- mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgwyliadau'r athrawon yn ddigon uchel; ac
- nid yw'r strategaethau i olrhain cynnydd y disgyblion wedi cael digon o effaith ar wella safonau.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- bod gan yr uwch dîm rheoli a rhan fwyaf y staff weledigaeth gytunedig ar gyfer codi safonau;
- y diwylliant cynyddol o ddisgwyliadau uchel ymhlith staff yr ysgol;
- y strwythur rheoli sydd yn sicrhau cyfathrebu clir ac atebolrwydd cynyddol;
- bod prosesau priodol er mwyn hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn nodweddion rheolaidd o waith yr ysgol; a
- bod amrediad eang o ddata perfformiad yn cael ei ddehongli'n ddeallus gan y mwyafrif o reolwyr canol.

Fodd bynnag:

- nid yw'r prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant wedi cael digon o effaith ar ystod o ddangosyddion nghyfnod allweddol 4, yn enwedig y trothwy

lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg;

- mae gormod o ddyletswyddau gan y pennaeth mewn gofal i'w alluogi i gyflawni ei rôl strategol fel pennaeth yn llawn;
- mewn ychydig o achosion, nid yw'r ddogfen hunanarfarnu ysgol gyfan yn ddigon hunanfeirniadol;
- nid yw adrannau pwnc bob amser yn arfarnu eu gwaith yng ngoleuni'r safonau yn ddigon treiddgar; ac
- nid yw'r meini prawf llwyddiant mewn lleiafrif o gynlluniau datblygu adrannol yn ddigon miniog.

## Argymhellion

A1 Gwella safonau cyrhaeddiad yng nghyfnod allweddol 4 yn y dangosydd lefel 2, yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg

A2 Gwella perfformiad y bechgyn, yn enwedig mewn Cymraeg iaith gyntaf, Saesneg a mathemateg yng nghyfnod allweddol 4

A3 Codi lefel yr her yn yr addysgu i gyd-fynd â'r hyn a welir yn y gwersi gorau

A4 Gwella ansawdd a chysondeb y marcio a'r adborth a roddir i ddisgyblion

A5 Gwella effaith y gweithgarwch dilynol ar y wybodaeth yn deillio o'r system dracio cynnydd

A6 Sicrhau bod y dyletswyddau'r uwch-dîm rheoli yn cael eu dosrannu'n briodol fel bod gan y pennaeth mewn gofal yr amser i gyflawni ei rôl strategol yn llawn

A7 Sicrhau bod meini prawf llwyddiant yng nghynlluniau gwella'r adrannau yn finiog a mesuradwy

A8 Dileu'r diffyg yn y gyllideb yn unol â`r amserlen sydd wedi ei chytuno â`r sir

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd sy'n cynnwys pum TGAU gradd A*-C neu hafal, yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi amrywio dros y blynyddoedd diwethaf. Mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn y dangosydd hwn wedi bod yn is nag ydyw mewn ysgolion tebyg. Yn y dangosydd sydd yn cyfateb i bump neu fwy o gymwysterau TGAU gradd A*-C, mae perfformiad ychydig yn is o gymharu ag ysgolion tebyg. Rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 4, gwna ddisgyblion gynnydd da mewn dangosyddion sydd yn cynnwys ystod eang o gymwysterau. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd mewn dangosyddion sydd yn cynnwys Saesneg, neu Gymraeg a mathemateg.

Mae perfformiad bechgyn yn y dangosyddion allweddol pwysig yng nghyfnod allweddol 4, yn sylweddol is nag ydyw mewn ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosydd pynciau craidd wedi gosod yr ysgol ymhlith y 50% uchaf mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf. Mae cyflawniadau ar lefel 6 neu uwch wedi amrywio dros gyfnod. Yn 2013, maent yn is nag ydynt mewn ysgolion tebyg eraill yn y Gymraeg a mathemateg.

Yn y chweched dosbarth, mae canlyniadau'r ysgol yn well na ffigyrau'r awdurdod lleol a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru cyfan.

Ym mron pob un o'r gwersi, mae'r disgyblion yn awyddus i ddysgu. Mewn llawer o wersi, gwna'r rhan fwyaf o'r disgyblion gyfraniadau synhwyrol ac estynedig wrth ymateb i gwestiynau'r athrawon. Yn y gwersi hyn, dengys rhan fwyaf ohonynt afael gadarn ar ystod eang o dermau pynciol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, mae ymatebion y disgyblion yn fyr ac annatblygedig. Trafoda'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gynhyrchiol â'i gilydd mewn grwpiau bach. Mae'r disgyblion yn gwrando'n astud ar farnau disgyblion eraill ac yn ymateb yn feddylgar iddynt. Siarada'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn rhugl yn y Gymraeg gan ddefnyddio iaith lafar gyfoethog a'r dafodiaith leol, yn ogystal â'r cywair Cymraeg ffurfiol. Mae'r disgyblion mwyaf abl yn mynegi eu hunain yn huawdl ynghylch ystod eang o destunau.

Yn y rhan fwyaf o wersi, gwna rhan fwyaf o'r disgyblion gynnydd da yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth bynciol. Yn y gwersi hyn, maent yn dwyn i gof dysgu blaenorol ac yn adeiladu ar hyn yn effeithiol. Dangosant afael gadarn ar gysyniadau pynciol pwysig a gofynion asesu y cyrsiau maent yn eu dilyn. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgyblion ar draws yr ystod gallu yn gwneud digon o gynnydd o ganlyniad i lefel amhriodol o her yn yr addysgu.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau darllen da iawn yn y Gymraeg. Mewn llawer o bynciau, maent yn defnyddio'r medrau hyn yn effeithiol er mwyn cywain gwybodaeth berthnasol o amrywiaeth o ffynonellau. Fodd bynnag, nid oes gan ychydig o'r

disgyblion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 3, afael ddigon cadarn ar ddarllen yn Saesneg. Daw ychydig iawn o'r disgyblion i'r ysgol ym Mlwyddyn 7 â phroblemau dwys o ran darllen yn y ddwy iaith. Dros amser, gwna'r rhain gynnydd da mewn grwpiau ymyrraeth.

Mewn llawer o bynciau, ysgrifenna'r disgyblion yn estynedig at ystod eang o bwrpasau a chynulleidfaoedd. Yn y gweithgareddau hyn, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n glir, ac yn cymhwyso rheolau gramadegol ac atalnodi'n gywir yn y Gymraeg. Fodd bynnag, gwna lleiafrif o'r disgyblion ormod o wallau sylfaenol wrth ysgrifennu yn Saesneg.

Defnyddia'r rhan fwyaf o'r disgyblion eu medrau rhifedd yn effeithiol mewn amrediad priodol o bynciau. Dengys y disgyblion hyn ddealltwriaeth addas o sut i gynhyrchu graddfeydd synhwyrol a phlotio graffiau'n gywir. Gall y disgyblion ddisgrifio ac adnabod patrymau mewn data trwy ddefnyddio geirfa fathemategol briodol. Dengys y mwyaf abl y gallu i ddewis y llinellau gweddu orau mwyaf addas i'w hychwanegu i'w graffiau.

**Lles: Da**

Noda bron pob un o'r disgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Prin iawn yw'r achosion o fwlio ac mae'r disgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn delio â rhain yn effeithiol. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i fwyta a byw yn iach. Mae cyfraddau uchel o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau 5 x 60 a chwaraeon.

Nodwedd gref o'r ysgol yw ymddygiad da iawn bron pob un o'r disgyblion mewn gwersi ac o gwmpas y safle. Maent yn gwrtais, yn gyfeillgar ac yn gymwynasgar. Mae lefelau gwaharddiadau dros dro yn isel iawn ac ni chafwyd gwaharddiad parhaol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf.

Ers 2010, mae cyfraddau presenoldeb wedi cynyddu ac yn 2013 mae'r ysgol ymysg y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim yn dilyn cyfnod o dair blynedd o fod ymhlith y 25% isaf. Mae data heb ei ddilysu'r ysgol yn dangos bod cynnydd eto yn y ffigyrau hyn eleni o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd eu gwersi yn brydlon.

Mae cyngor yr ysgol yn dechrau cael dylanwad cadarnhaol ar fywyd yr ysgol, er enghraifft trwy addasu gweithdrefnau ymdrin â bwlio ac ehangu ar ystod y ddarpariaeth allgyrsiol. Mae ganddynt gysylltiad ddefnyddiol â'r corff llywodraethol.

Gwna'r disgyblion, yn enwedig yn y chweched dosbarth, gyfraniadau gwerthfawr i'r gymuned trwy, er enghraifft, gynnal gweithgareddau hybu defnydd y Gymraeg yn yr ysgolion partner cynradd a'r gymuned fusnes leol.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn meddu ar y medrau i'w paratoi ar gyfer bywyd tu hwnt i'r ysgol. Mae pob disgybl a adawodd yr ysgol yn 2012 a 2013 naill ai mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sydd yn cwrdd â'r gofynion statudol. O ganlyniad i bartneriaethau buddiol ag ysgolion a cholegau lleol, ceir arlwy eang a pherthnasol o gyrsiau academaidd a galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Yn ogystal â hyn, ceir amrediad eang o weithgareddau allgyrsiol sydd yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu'n ddiwylliannol ac i gymryd rhan mewn amrywiaeth o chwaraeon.

Mae cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd yng nghynlluniau gwaith pob adran, yn ogystal â rhifedd, medrau meddwl a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu lle bo'n briodol. Mae'r ysgol yn cynllunio'n effeithiol i ymateb i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae rhaglenni ymyrraeth yr ysgol yn rhoi cymorth effeithiol i ddisgyblion â diffygion yn eu medrau sylfaenol i ddatblygu eu medrau llythrennedd. Mae strategaethau pontio Ysgol y Berwyn yn talu sylw priodol at drosglwyddiad cwricwlaidd esmwyth.

Mae'r ysgol yn hybu Cymreictod a defnydd o'r Gymraeg yn effeithiol iawn er enghraifft trwy weithgareddau pontio effeithiol a gefnogir gan aelodau'r chweched dosbarth. Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig yn llwyddiannus trwy gynlluniau gwaith ar draws y pynciau.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n briodol i sicrhau ymwybyddiaeth addas o faterion ynghylch cynaliadwyedd, er enghraifft trwy'r gwersi gwyddoniaeth a daearyddiaeth yn trafod materion lleol megis defnydd tyrbinau gwynt. Hyrwydda'r ysgol ddealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol, er enghraifft trwy deithiau i Batagonia a chysylltiadau gwerthfawr gyda Tansania a Kenya.

**Addysgu: Digonol**

Yn y mwyafrif o wersi, mae amrywiaeth o weithgareddau symbylol i ennyn diddordeb y disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae'r athrawon yn cynnal tempo cyflym ac yn cynnig cefnogaeth fuddiol i ddisgyblion unigol. Mae llawer o athrawon yn defnyddio cwestiynau agored yn briodol er mwyn profi ac ymestyn dealltwriaeth y disgyblion. Yn y mwyafrif o wersi, mae disgwyliadau uchel a phriodol o'r hyn y gall ddisgyblion ei gyflawni. Mae'r rhan fwyaf o gynorthwywyr dysgu yn rhoi cefnogaeth ddefnyddiol i ddisgyblion penodol. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, maent yn gwneud gormod dros y disgyblion, sydd yn cyfyngu ar eu cynnydd. Mewn ychydig iawn o'r gwersi, mae cynllunio manwl i ddiwallu anghenion disgyblion unigol yn sgil ymwybyddiaeth fanwl o'u cryfderau a'u gwendidau. Yn y gwersi hyn, mae cyfleoedd buddiol iawn i ddatblygu medrau'r disgyblion â chwestiynu treiddgar. Mae bron pob athro'n cynnig model iaith da yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae'r rhan fwyaf yn meithrin perthynas weithio gynhyrchiol â'r disgyblion.

Mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgwyliadau'r athrawon yn ddigon uchel. Mewn ychydig o wersi, mae gorgyfeirio gan yr athrawon yn cyfyngu ar hunanddibyniaeth y disgyblion. Yn y gwersi hyn, nid yw'r athrawon yn cynllunio'n ddigon manwl er mwyn diwallu anghenion yr holl ystod allu, yn enwedig y mwyaf abl. Yn ogystal â hyn, nid

yw'r athrawon hyn yn defnyddio cwestiynau yn ddigon effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn ymhelaethu ar eu hymatebion. Mewn ychydig iawn o wersi, nid yw'r berthynas waith rhwng yr athrawon a'r disgyblion yn ddigon cadarnhaol i hyrwyddo'r cynnydd priodol.

Mae bron pob athro'n cynnig adborth llafar rheolaidd a phriodol i ddisgyblion yn ystod gwersi. Yn y mwyafrif o bynciau, mae'r athrawon yn rhoi tasgau hunanasesu neu asesu cymheiriaid addas sydd yn gymorth i'r disgyblion ddeall sut i wella. Mae'r rhan fwyaf yn marcio llyfrau'n aml ac yn cynnig sylwadau cadarnhaol i'r disgyblion. Yn y mwyafrif o bynciau, ceir adborth ysgrifenedig defnyddiol i'r disgyblion sydd yn esbonio'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o bynciau, nid yw'r sylwadau'n ddigon penodol i fod o ddefnydd. Yn ychwanegol, yn y pynciau hyn, nid yw'r athrawon yn sicrhau bod y disgyblion yn gweithredu ar y cyngor a roddir iddynt. Mewn ychydig iawn o bynciau, nid yw'r marcio'n gyfredol.

Mae gan yr ysgol system briodol i dracio cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, yn 2013, nid oedd yr asesiadau a oedd yn bwydo'r system yn ddigon manwl gywir, na'r gweithdrefnau dilynol yn ddigon llwyddiannus i gynnal safonau mewn meysydd pwysig fel Saesneg a mathemateg yng nghyfnod allweddol 4.

Derbynia'r rhieni wybodaeth ddefnyddiol ynghylch cynnydd eu plant mewn cyfarfodydd rhieni ac adroddiadau interim a blynyddol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar. Mae'n hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion yn effeithiol ac wedi cymryd camau priodol i fodloni`r gofynion newydd ar gyfer bwyta ac yfed yn iach. Mae staff yr ysgol yn cynnig cymorth a chefnogaeth fuddiol i ddelio'n brydlon ag unrhyw broblemau sydd gan y disgyblion. Atgyfnerthir ymdrechion yr ysgol trwy gydweithio rhyngasiantaethol bwriadus. Mae'r gwelliant mewn lefelau presenoldeb yn 2013 yn ganlyniad i olrhain absenoldebau disgyblion yn effeithiol gan yr ysgol a chydweithio'n agos â'r swyddog lles addysg.

Mae gan yr adran anghenion dysgu ychwanegol adnabyddiaeth fanwl o ddisgyblion penodol. Trwy bartneriaeth agos gyda rhieni, mae'r ysgol yn pennu targedau addas i ddisgyblion ag angenion penodol yn y cynlluniau addysg unigol. Caiff rhain eu hadolygu'n rheolaidd a'u defnyddio'n effeithiol gan y rhan fwyaf o'r staff i ddiwallu anghenion y disgyblion hyn. Gwna ddisgyblion ag anawsterau penodol gynnydd da o ganlyniad i nifer o ymyraethau effeithiol.

Darperir rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr. Cyfoethogir y rhaglen gan gyfraniadau gwerthfawr gan nyrs yr ysgol er mwyn trosglwyddo gwybodaeth anghenrheidiol am addysg rhyw. Yn ogytal â hyn, ceir gweithdai amrywiol sydd yn cael eu cynnal gan asiantaehau allanol megis y gwasanaeth tân.

Trwy'r profiadau dysgu a'r rhaglen eang o weithgareddau allgyrsiol, sicrha'r ysgol ddatblygiad personol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol o ansawdd da i'w disgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol mewn gwersi addysg grefyddol a chyfnodau boreol, yn enwedig cyfraniadau'r dysgwyr, yn effeithiol iawn.

Mae’r ysgol yn darparu cyngor buddiol i ddisgyblion yn eu dewisiadau o gyrsiau neu yrfa.

Mae gan y darparwr bolisïau priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol a chynhaliol Cymreig ac mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i'r cwricwlwm.  Hyrwydda'r ysgol gydraddoldeb yn effeithiol ym mhob agwedd ar ei gwaith ac mae'r ysgol yn herio stereoteipio'n llwyddiannus, er enghraifft yn newisiadau cwricwlaidd y disgyblion.

Ceir ystod dda o gyfarpar technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ynghyd ag adnoddau o ansawdd uchel eraill i gefnogi dysgu.  Mae gan yr ysgol adnoddau ymarfer corff a meysydd chwaraeon eang a defnyddiol.  Er bod ychydig rannau o’r adeilad yn hen ac mewn cyflwr addurnol gwael, ceir arddangosfeydd deniadol ac ysgogol ym mron pob ystafell ddysgu.  Caiff y safle ei chadw'n lân ac yn daclus.

| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth:  Digonol**

Yn dilyn ei apwyntiad yn 2011, mae’r pennaeth strategol wedi llwyddo i osod cyfeiriad clir i’r ysgol.  Ers 2011, mae’r ysgol wedi diwygio llawer o’i threfniadau a strwythurau rheoli’n briodol er mwyn cryfhau atebolrwydd.  Gyda chefnogaeth addas yr uwch dîm rheoli, mae diwylliant cynyddol o ddisgwyliadau uchel yn treiddio trwy’r ysgol.  Mae gweledigaeth gytunedig o godi safonau gan yr uwch dîm rheoli yn ogystal â’r llywodraethwyr a’r rhieni a rhan fwyaf y staff.  Mae hyn wedi cael effaith briodol ar godi safonau yng nghyfnod allweddol 3.  Serch hynny, nid oes digon o effaith ar gyflawniad y disgyblion mewn dangosyddion pwysig megis y trothwy lefel 2, yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg.

Mae rhychwant cyfrifoldebau aelodau’r uwch dim rheoli yn anwastad.  Mae gormod o ddyletswyddau gan y pennaeth mewn gofal i’w alluogi i gyflawni ei rôl strategol fel pennaeth yn llawn.  O ganlyniad, nid yw ychydig agweddau o reolaeth ysgol, er enghraifft prosesau hunanarfarnu gweithdrefnau bugeiliol, yn ddigon cynhwysfawr a chadarn.

Mae’r strwythur rheoli yn sicrhau cyfathrebu clir a cheir atebolrwydd cynyddol ar fwyafrif o reolwyr canol.  Mae cyswllt rheolaidd addas rhwng aelodau’r uwch dîm rheoli a’u hadrannau dynodedig.  Mae arweinwyr yr ysgol yn defnyddio ystod o ddata’n effeithiol i fonitro perfformiad, ac maent yn sicrhau trafodaethau buddiol gyda’u hadrannau cyswllt.  Serch hynny, nid yw’r gwaith hwn wedi arwain at welliannau cynaliadwy mewn lleiafrif o adrannau.  Mae cyfarfodydd ar lefel yr uwch dîm rheoli a rheolwyr canol gan amlaf yn arwain at nodi pwyntiau gweithredu addas. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o gofnodion, nid oes dilyniant clir i ddangos i ba raddau mae’r adran wedi ymateb i’r pwyntiau gweithredu a nodwyd.

Mae’r ysgol yn ymateb yn briodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, er enghraifft trwy hybu Cymreictod yn llwyddiannus. Serch hynny, nid yw wedi llwyddo i leihau’r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched mewn meysydd pwysig.

Mae’r corff llywodraethol yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn briodol. Mae’r corff llywodraethol yn deall eu rolau yn dda. Mae ganddynt ymwybyddiaeth drylwyr am berfformiad yr ysgol ac maent yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn gynyddol am safonau.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ysgol brosesau priodol ar gyfer hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Defnyddia ystod eang o ffynonellau tystiolaeth dilys i ddadansoddi ei pherfformiad. Mae rhain yn cynnwys data perfformiad, arsylwadau gwersi ac adroddiadau yn deillio o graffu ar lyfrau disgyblion. Mae’r ysgol hefyd yn casglu barn rhieni neu ofalwyr a disgyblion yn effeithiol.

Mae adroddiad hunanarfarnu’r ysgol gyfan yn gynhwysfawr ac, ar y cyfan, yn arfarnol. Mae gan yr uwch dîm rheoli adnabyddiaeth briodol o gryfderau’r ysgol a’r meysydd sydd angen eu datblygu. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw’r ddogfen yn ddigon hunanfeirniadol ac nid yw’n nodi ychydig feysydd pwysig lle mae angen gwella.

Mae mwyafrif o’r adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn rhoi sylw trylwyr i’r rhan fwyaf o’r agweddau pwysig. Gyda chymorth arweiniad buddiol yr uwch dîm rheoli, caiff amrediad eang o ddata ei ddehongli’n effeithiol gan y mwyafrif o reolwyr canol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o reolwyr yn gwneud defnydd digon manwl o’r dadansoddiadau data i nodi meysydd i’w gwella yn y ddarpariaeth. Mae rheolwyr canol yn casglu tystiolaeth uniongyrchol am safonau yr ysgol yn briodol drwy drefn ymweliadau monitro gwersi a chraffu ar lyfrau. Er hynny, mae lleiafrif o‘r cofnodion monitro gwersi a chraffu ar lyfrau yn rhy hael. O ganlyniad, nid yw lleiafrif o’r rheolwyr canol yn gosod disgwyliadau digon uchel o ran ansawdd yr addysgu a’r asesu yn yr adrannau.

Mae cysylltiad clir rhwng hunanarfarnu ar lefel ysgol gyfan a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae’r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen fanwl sydd yn cynnwys strategaethau addas er mwyn cyflawni’r blaenoriaethau. Mae’r cynlluniau gwella adrannol yn gweddu’n briodol i flaenoriaethau’r ysgol. Ceir cysylltiad agos rhwng deilliannau’r adroddiadau hunanarfarnu adrannol a chynllunio adrannol. Mae mwyafrif o adrannau yn cynllunio strategaethau gwelliant addas, gan osod meini prawf llwyddiant mesuradwy. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o gynlluniau datblygu, nid yw’r strategaethau ar gyfer gwella yn ddigon penodol ac nid yw’r meini prawf llwyddiant yn ddigon miniog.

Mae’r ysgol wedi ymateb yn briodol i fwyafrif argymhellion yr arolygiad diwethaf. Serch hynny, ni fu digon o gynnydd o ran mireinio cyfrifoldebau aelodau’r uwch dîm rheoli a sicrhau bod trefniadau monitro safonau effeithiol ar waith ar draws yr adrannau. Mae codi safonau cyfnod allweddol 4 yn parhau yn faes lle mae angen gwelliant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid er mwyn cyfoethogi'r cwricwlwm a gwella safonau a lles y disgyblion.

Mae gan yr ysgol berthynas agos â'i hysgolion partner cynradd. Caiff disgyblion Blwyddyn 6 gyfleoedd buddiol a chyson i ymweld â'r ysgol. Mae'r gweithgareddau pontio yn sicrhau bod y disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym yn yr ysgol. Yn ogystal â hyn, mae'r trefniadau ar gyfer cyd-safoni asesiadau athrawon wedi arwain at well ddealltwriaeth gan yr athrawon o'r meini prawf asesu yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3.

Mae'r ysgol yn gweithio'n gynhyrchiol gyda darparwyr eraill, yn cynnwys ysgolion uwchradd lleol a'r coleg lleol. Mae'r bartneriaeth hon yn ehangu ar yr ystod o gyrsiau sydd yn cael eu cynnig i'r disgyblion fel rhan o'r bartneriaeth 14 – 19. Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth yn y cyrsiau hyn. Mae'r bartneriaeth hon yn cyfrannu yn effeithiol tuag at gyrhaeddiad y disgyblion ôl-16.

Mae'r ysgol yn cynnal perthynas agos gyda'r rhieni neu ofalwyr ac yn cyfathrebu'n effeithiol gyda nhw i sicrhau eu bod yn ymwybodol o gynnydd eu plant. Mae'r ysgol hefyd yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o sefydliadau, a grwpiau cymunedol, er enghraifft trwy waith disgyblion y chweched dosbarth yn hyrwyddo defnydd y Gymraeg o fewn busnesau lleol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu'r disgyblion ac yn ehangu eu hymwybyddiaeth o'r gymuned a'r byd gwaith.

Mae partneriaethau cynhyrchiol gydag adrannau hyfforddiant cychwynnol prifysgolion Bangor ac Aberystwyth yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i athrawon ddatblygu eu medrau proffesiynol.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mewn cyfnod o ostyngiad yn niferoedd y disgyblion, mae'r ysgol wedi llwyddo i gynnal lefelau staffio priodol i addysgu'r cwricwlwm. Mae'r ychydig aelodau o staff sy'n addysgu y tu allan i'w harbenigedd yn derbyn hyfforddiant ac arweiniad priodol i sicrhau eu bod yn deall gofynion y pwnc.

Rheola'r ysgol y cyllid a ddyrennir iddi yn ofalus fel bod y ddyled hanesyddol yn lleihau yn flynyddol. Mae'r pennaeth strategol, gyda chefnogaeth werthfawr y swyddog cyllid, yn cynllunio'r gwariant a monitro'r cyllid yn rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau digon o gyllid ar gyfer datblygiadau i ymateb i flaenoriaethau'r ysgol. Caiff y llywodraethwyr fewnbwn addas i gynllunio ariannol yr ysgol.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad priodol. Mae'r targedau uchelgeisiol cytunedig yn plethu'n dda â phrif flaenoriaethau'r ysgol. Mae gofynion hyfforddiant sydd yn codi o gylch rheoli perfformiad yn cael eu diwallu'n briodol gan raglen effeithiol o ddatblygiad proffesiynol parhaus. Ceir ychydig o weithgorau proffesiynol tu fewn i'r ysgol a gydag ysgolion eraill ond nid ydynt wedi cael effaith ar godi safonau.

Mae’r chweched dosbarth yn cynnig gwerth da am arian ac nid yw cost y ddarpariaeth yn yn tynnu oddi ar gyllid cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4.

O ystyried y safonau digonol, darpara’r ysgol werth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Dros y pedair blynedd diwethaf, yng nghyfnod allweddol 4, mae canlyniadau’r trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi amrywio. Yn 2012, mi wnaeth perfformiad yn y dangosydd hwn osod yr ysgol ymhlith yr hanner uchaf o ysgolion tebyg yn ôl hawl i brydau ysgol am ddim. Serch hynny, mae perfformiad yn y dangosydd hwn wedi gosod yr ysgol yn is na chyfartaledd y teulu ac yn y chwarter neu’r hanner isaf yn 2010, 2011 a 2013. Mewn tair o’r pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yn y dangosydd hwn yn is na disgwyliadau wedi’u modelu.

Mewn tair o’r pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 yn is na chyfartaledd y teulu ac yn gosod yr ysgol yn yr hanner neu’r chwarter isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i ginio am ddim. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn nhrothwy lefel 1 wedi gwella ac, yn 2013, mae’n uwch na chyfartaledd y teulu ac ymhlith y chwarter uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i ginio am ddim. Ers 2010, mae perfformiad yn y sgôr bwyntiau cyfartalog ehangach wedi’i chapio wedi amrywio ond mae’n gyson yn debyg i gyfartaleddau’r teulu.

Yn y pedair blynedd diwethaf, bu amrywiad mewn perfformiad yn y Gymraeg fel iaith gyntaf ar lefel 2. Yn 2013, roedd perfformiad yn y dangosydd hwn yn is na chyfartaledd y teulu. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn lefel 2 Saesneg wedi amrywio ac yn gosod yr ysgol yn gyson yn is na chyfartaleddau’r teulu ac yn yr hanner neu’r chwarter isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i ginio am ddim. Yn y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad mewn mathemateg ar lefel 2 yn is na chyfartaledd y teulu heblaw am yn 2012. Yn 2013, bu gostyngiad yn y dangosydd hwn, ac roedd perfformiad yn gosod yr ysgol yn y chwarter isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim. Mae perfformiad gwyddoniaeth ar lefel 2 wedi gwella’n sylweddol yn ddiweddar, ac yn 2013, wedi gosod yr ysgol uwchlaw cyfartaledd y teulu ac yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran hawl i ginio am ddim.

Mae perfformiad bechgyn dros y pedair blynedd ddiwethaf yn sylweddol is nag ydyw mewn ysgolion tebyg yn y dangosydd pynciau craidd, trothwy lefel 2 a’r trothwy lefel 2, yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosydd pynciau craidd wedi gwella dros y pedair blynedd ddiwethaf ac yn 2013 yn gosod yr ysgol ychydig yn is na chyfartaledd y teulu ac yn yr hanner uwch o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Ers 2010, mae perfformiad yn y Gymraeg ar lefel 5 neu’n uwch yng nghyfnod allweddol 3 wedi gwella ac yn 2013 yn gosod yr ysgol yn uwch na chyfartaledd y teulu. Mae perfformiad mewn Saesneg ar lefel 5 neu’n uwch wedi gwella ers 2010 ac yn 2013 yn gosod yr ysgol yn uwch na chyfartaledd y teulu ac yn chwarter uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i ginio am ddim. Mae perfformiad mewn mathemateg ar lefel 5 neu’n uwch wedi gwella ers 2010 ac yn 2013, yn gosod yr ysgol yn uwch na chyfartaledd y teulu ac yn yr hanner uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i ginio am ddim. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth ar lefel 5 neu’n uwch wedi gwella ers 2010, ac yn 2013 yn uwch na

chyfartaledd y teulu ac ymhlith yr hanner uwch o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim.

Mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch yn y Gymraeg yn gyson is na chyfartaledd y teulu.  Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch mewn Saesneg wedi amrywio ac yn 2013 yn gosod yr ysgol yn uwch na chyfartaledd y teulu.  Mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch mewn mathemateg yn gyson is na chyfartaledd y teulu.  Mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch mewn gwyddoniaeth wedi gwella'n arwyddocaol dros y pedair blynedd diwethaf ac yn uwch na chyfartaledd y teulu yn 2013.

Yn y chweched dosbarth, mae canlyniadau'r ysgol yn uwch na ffigyrau'r awdurdod lleol a pherfformiad ysgolion tebyg.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Uwchradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school | 85 | 66 | 17 | 2 | 0 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 78% | 20% | 2% | 0% | |
| | | 42% | 53% | 4% | 1% | |
| The school deals well with any bullying | 85 | 51 | 33 | 1 | 0 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 60% | 39% | 1% | 0% | |
| | | 25% | 58% | 14% | 3% | |
| I have someone to talk to if I am worried | 82 | 41 | 40 | 1 | 0 | Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni. |
| | | 50% | 49% | 1% | 0% | |
| | | 37% | 53% | 8% | 1% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 85 | 22 | 55 | 7 | 1 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 26% | 65% | 8% | 1% | |
| | | 23% | 57% | 18% | 3% | |
| There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise | 84 | 47 | 32 | 5 | 0 | Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 56% | 38% | 6% | 0% | |
| | | 45% | 45% | 8% | 1% | |
| I am doing well at school | 86 | 40 | 46 | 0 | 0 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 47% | 53% | 0% | 0% | |
| | | 32% | 62% | 5% | 1% | |
| The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems | 85 | 38 | 47 | 0 | 0 | Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau. |
| | | 45% | 55% | 0% | 0% | |
| | | 38% | 55% | 6% | 1% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school | 84 | 26 | 49 | 9 | 0 | Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 31% | 58% | 11% | 0% | |
| | | 20% | 54% | 21% | 5% | |
| I have enough books and equipment, including computers, to do my work | 84 | 45 | 33 | 5 | 1 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | |
| | | 45% | 47% | 7% | 1% | |
| Pupils behave well and I can get my work done | 80 | 16 | 59 | 5 | 0 | Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 20% | 74% | 6% | 0% | |
| | | 10% | 57% | 27% | 6% | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Staff treat all pupils fairly and with respect | 83 | 40 | 38 | 4 | 1 | Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. |
| | | 48% | 46% | 5% | 1% | |
| | | 28% | 51% | 17% | 5% | |
| The school listens to our views and makes changes we suggest | 83 | 25 | 44 | 14 | 0 | Mae’r ysgol yn gwrando ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni’n eu hawgrymu. |
| | | 30% | 53% | 17% | 0% | |
| | | 16% | 54% | 25% | 5% | |
| I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility | 85 | 42 | 41 | 2 | 0 | Rwy’n cael fy annog i wneud pethau drosof fy hun a chymryd cyfrifoldeb. |
| | | 49% | 48% | 2% | 0% | |
| | | 33% | 61% | 5% | 1% | |
| The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life | 83 | 38 | 43 | 2 | 0 | Mae’r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith. |
| | | 46% | 52% | 2% | 0% | |
| | | 36% | 54% | 8% | 1% | |
| The staff respect me and my background | 80 | 43 | 34 | 3 | 0 | Mae’r staff yn fy mharchu i a’m cefndir. |
| | | 54% | 42% | 4% | 0% | |
| | | 36% | 54% | 7% | 2% | |
| The school helps me to understand and respect people from other backgrounds | 82 | 42 | 36 | 4 | 0 | Mae’r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. |
| | | 51% | 44% | 5% | 0% | |
| | | 35% | 57% | 7% | 1% | |
| Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4 | 30 | 14 | 15 | 1 | 0 | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. |
| | | 47% | 50% | 3% | 0% | |
| | | 28% | 52% | 15% | 5% | |
| Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form | 22 | 10 | 7 | 4 | 1 | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth. |
| | | 45% | 32% | 18% | 5% | |
| | | 27% | 50% | 16% | 7% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 95 | 29 | 64 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 31% | 67% | 2% | 0% | | |
| | | 42% | 51% | 4% | 1% | | |
| My child likes this school. | 95 | 40 | 53 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 42% | 56% | 2% | 0% | | |
| | | 46% | 48% | 4% | 1% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 95 | 45 | 48 | 2 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 47% | 51% | 2% | 0% | | |
| | | 49% | 45% | 3% | 1% | | |
| My child is making good progress at school. | 93 | 33 | 58 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 35% | 62% | 0% | 0% | | |
| | | 44% | 48% | 4% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 94 | 23 | 62 | 2 | 0 | 7 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 24% | 66% | 2% | 0% | | |
| | | 21% | 55% | 11% | 3% | | |
| Teaching is good. | 95 | 22 | 68 | 1 | 1 | 3 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 23% | 72% | 1% | 1% | | |
| | | 33% | 58% | 5% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 94 | 35 | 58 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 37% | 62% | 1% | 0% | | |
| | | 50% | 46% | 2% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 95 | 23 | 66 | 3 | 1 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 24% | 69% | 3% | 1% | | |
| | | 31% | 54% | 8% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 92 | 23 | 57 | 6 | 2 | 4 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 25% | 62% | 7% | 2% | | |
| | | 32% | 49% | 9% | 2% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 95 | 35 | 52 | 3 | 0 | 5 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 37% | 55% | 3% | 0% | | |
| | | 33% | 54% | 7% | 1% | | |
| My child is safe at school. | 95 | 43 | 49 | 1 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 45% | 52% | 1% | 0% | | |
| | | 40% | 53% | 3% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 84 | 23 | 46 | 4 | 0 | 11 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 27% | 55% | 5% | 0% | | |
| | | 31% | 46% | 7% | 2% | | |

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 92 | 23 | 59 | 6 | 3 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 25% | 64% | 7% | 3% | | |
| | | 33% | 50% | 11% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 93 | 33 | 56 | 1 | 1 | 2 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 35% | 60% | 1% | 1% | | |
| | | 41% | 49% | 6% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 92 | 23 | 55 | 6 | 2 | 6 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 25% | 60% | 7% | 2% | | |
| | | 27% | 51% | 10% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 94 | 29 | 62 | 1 | 0 | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 31% | 66% | 1% | 0% | | |
| | | 35% | 53% | 5% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 86 | 19 | 52 | 6 | 0 | 9 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 22% | 60% | 7% | 0% | | |
| | | 26% | 46% | 8% | 2% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 94 | 33 | 46 | 12 | 1 | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 35% | 49% | 13% | 1% | | |
| | | 35% | 50% | 9% | 2% | | |
| The school is well run. | 91 | 31 | 52 | 2 | 1 | 5 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 34% | 57% | 2% | 1% | | |
| | | 40% | 49% | 5% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Ceri Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Bethan Whittall | Arolygydd Tîm |
| Ray Owen | Arolygydd Tîm |
| John David Dyer | Arolygydd Lleyg |
| Nicola Jayne Hughes | Arolygydd Cymheiriaid |
| Huw Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion |

| | |
|---|---|
| | tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |